



Ein cyf/Our ref VG/03476/18

David John Rowlands AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deisebau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Caerdydd  
CF99 1NA

SeneddDeisebau@cynulliad.cymru

7 Tachwedd 2018

Annwyl David,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 19 Hydref ynglŷn â Deiseb P-05-849: mynediad at brofion diagnostig lle bo amheuaeth o ganser y prostat.

Dylai cleifion yng Nghymru gael mynediad at archwiliadau canser yn unol â'r canllawiau clinigol a dylai hyn gael ei ddarparu'n gyson drwy Gymru. Mae angen i'r broses o gyflwyno profion a gweithdrefnau newydd gael eu deall yn llawn gan y Byrddau Iechyd a dylent baratoi ar eu cyfer. O ran yr mpMRI cyn biopsi, mae tystiolaeth wedi deillio o un treial clinigol o leiaf y gallai fod manteision i gynnal mpMRI cyn biopsi yn hytrach na'r hyn sydd yn argymhellion y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) ar gyfer ymchwilio i achosion lle bo amheuaeth o ganser y prostat.

Fodd bynnag mae materion ehangach i'w hystyried yn hytrach na'r penderfyniad a ddylid cynnal mpMRI ai peidio cyn neu ar ôl y biopsi. Maent yn ymwneud â safon y prawf, manylion y cyfarpar, y gofynion hyfforddi ar gyfer yr adrodd a'r potensial i bennu nad oes angen biopsi yn achos rhai cleifion. Bydd goblygiadau hefyd i lwybrau canser a chlefydau eraill os bydd elfen sylweddol o'r galw yn symud oddi wrth histopatholeg at radioleg, gan fod pwysau sylweddol ar wasanaethau radioleg yn barod, felly rhaid i unrhyw newidiadau i'r llwybr gael eu cynllunio a'u rheoli.

Fy nisgwyliad i yw bod Byrddau Iechyd yn sicrhau gofal cyson o ansawdd uchel drwy ddarparu gwasanaethau yn unol â chanllawiau cyrff fel NICE. Fel y soniwyd uchod, nid yw NICE yn argymhell cynnal mpMRI cyn biopsi ar hyn o bryd ond mae'n cynnal adolygiad o'r canllawiau ar gyfer diagnosis a rheoli mewn achosion o ganser y prostat, a disgwylir i hwn gael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2019. Mae manylion ynghylch cwmpas a chynnydd y diweddariad hwn ar gael yn:

<https://www.nice.org.uk/guidance/indevelopment/gid-ng10057/documents>

Mae Bwrdd Wroleg Cymru wedi trafod y mater hwn sawl gwaith yn y deuddeg mis diwethaf, ac yn ei gyfarfod diwethaf cytunwyd i sefydlu gweithdy at ddiben llunio consensws er mwyn helpu'r byrddau iechyd i gynllunio cyn y daw'r penderfyniad gan NICE. Bydd y gweithdy hwn yn cael ei gynnal ar 12 Tachwedd a bydd Prostate Cancer UK yn cymryd rhan.

Os bydd NICE yn argymhell cynnal mpMRI cyn biopsi, yna byddaf yn disgwyl i bob un o'r Byrddau Iechyd newid eu llwybrau yn unol â hynny. Fodd bynnag, nid oes modd i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniad ynglŷn â'r llwybr clinigol mwyaf addas i ymchwilio i achos lle'r amheuir canser y prostad. Rhaid i hyn fod yn gyfrifoldeb i fyrddau iechyd ac arweinwyr clinigol, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael. Disgwyliaf fwy o gysondeb o ran y gwasanaethau a ddarperir ar ôl i ganllawiau NICE gael eu diweddarau.

Diolch yn fawr unwaith eto am ysgrifennu ataf am y mater hwn.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive, flowing style.

**Vaughan Gething AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cabinet Secretary for Health and Social Services